YSGOL WOW NEWYDD

Annwyl riant/gofalwr,

Mae ysgol eich plentyn wedi dewis bod yn rhan o fenter newid ymddygiad gyffrous i annog mwy o blant a'u teuluoedd i gerdded i'r ysgol. **Caiff WOW – yr her cerdded i'r ysgol** ei chyflwyno gan Living Streets, elusen y DU ar gyfer cerdded bob dydd, i helpu cymaint o blant â phosibl i brofi manteision cerdded i'r ysgol.

Mae'r her sy'n cael ei harwain gan ddisgyblion yn galluogi plant i ddefnyddio dull hunanadrodd i nodi sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Os ydyn nhw'n teithio'n llesol (cerdded/troelli, beicio, sgwtera, 'Parcio a Cherdded', neu'n dod oddi ar y trên/bws yn gynt) o leiaf unwaith yr wythnos am fis, cânt eu gwobrwyo â bathodyn. Mae mor syml â hynny!

Beth yw manteision cerdded i'r ysgol?

- Mae plant yn teimlo'n hapusach ac yn iachach
- Maen nhw'n cyrraedd yr ysgol wedi eu hadfywio ac yn barod i ddysgu
- Mae'n helpu i leihau tagfeydd a llygredd wrth gatiau'r ysgol

Beth os na allwn ni gerdded i'r ysgol?

Os ydych chi'n gyrru, mae Parcio a Cherdded yn gallu helpu'ch plentyn i ennill ei fathodynnau WOW. Parciwch o leiaf ddeg munud i ffwrdd o'r ysgol a cherddwch neu troellwch weddill y daith.

Os ydych chi'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, dewch oddi ar y bws/trên **o leiaf ddeg munud i ffwrdd** a cherddwch weddill y daith (wedi'i gofnodi fel 'arall' ar Draciwr Teithio WOW).

Os nad yw cerdded i'r ysgol yn opsiwn, rydym yn cydweithio ag ysgolion i roi dull pwrpasol ar waith ar gyfer WOW sy'n diwallu anghenion eu disgyblion. Mae hyn yn cynnwys disgyblion yn dod yn Llysgenhadon WOW, arwain gwasanaethau ysgol, creu hysbysfyrddau teithio llesol, a gweithgareddau eraill yn ystod y diwrnod ysgol.

Dywedwch wrthym am eich profiadau o deithio i'r ysgol a gallech ennill taleb siopa gwerth £200: https://www.surveymonkey.com/r/WelshWOWP

Beth yw bathodyn WOW?

240 City Road, Llundain, EC1V 2PR
020 7377 4900 info@livingstreets.org.uk livingstreets.org.uk

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban). Cwmni Cyfyngedig trwy Warant (Cymru a Lloegr). Rhif Cofrestru Cwmni 5368409.

Mae 11 o fathodynnau i'w hennill rhwng mis Medi 2025 a mis Gorffennaf 2026.

Mae pob bathodyn wedi'i ddylunio gan ddisgybl fel rhan o'n Cystadleuaeth Dylunio Bathodyn WOW blynyddol. Gellir ennill bathodyn newydd bob mis os yw disgyblion yn cerdded/troelli, beicio, sgwtera, 'Parcio a Cherdded' neu'n dod oddi ar y trên/bws yn gynt o leiaf unwaith yr wythnos.

Mae WOW 2025/26 yn annog disgyblion i ***Gerdded â Llawenydd***, gyda bathodynnau'n portreadu popeth o neidio mewn pyllau dŵr i beintio.

Caiff y bathodynnau eu creu yng Nghernyw o ddeunydd a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi, gan gynnwys hen hambyrddau oergell, platiau plastig a thoriadau potiau iogwrt.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: **livingstreets.org.uk/recycling**

Y llynedd, profodd tua 2,100 o ysgolion a thros 540,000 o ddisgyblion ledled y DU fanteision cerdded i'r ysgol gyda WOW. A fyddwch chi'n ymuno â ni?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y rhaglen, cysylltwch â

…........................................................................., neu dewch o hyd i ragor o wybodaeth a fideos defnyddiol yn: **livingstreets.org.uk/wowlaunch**

**Gadewch i ni gyfnewid y teithiau hynny i'r ysgol yn y car am deithiau cerdded i'r ysgol.**

YSGOL WOW SY'N DYCHWELYD

Annwyl riant/gofalwr,

Mae cynllun Living Streets, **WOW** – yr her cerdded i'r ysgol yn ôl i helpu i annog cynifer o blant â phosibl i brofi manteision cerdded i'r ysgol.

Fel y gwyddoch chi, mae WOW yn fenter sy'n cael ei harwain gan ddisgyblion lle mae'r plant yn defnyddio dull hunanadrodd i nodi sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Os ydyn nhw'n teithio'n llesol (cerdded/troelli, beicio, sgwtera, 'Parcio a Cherdded', neu'n dod oddi ar y trên/bws yn gynt) o leiaf unwaith yr wythnos am fis, cânt eu gwobrwyo â bathodyn. Mae mor hawdd â hynny!

Beth yw manteision cerdded i'r ysgol?

- Mae plant yn teimlo'n hapusach ac yn iachach
- Maen nhw'n cyrraedd yr ysgol wedi eu hadfywio ac yn barod i ddysgu
- Mae'n helpu i leihau tagfeydd a llygredd wrth gatiau'r ysgol

Beth os na allwn ni gerdded i'r ysgol?

240 City Road, Llundain, EC1V 2PR
020 7377 4900 info@livingstreets.org.uk livingstreets.org.uk

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban). Cwmni Cyfyngedig trwy Warant (Cymru a Lloegr). Rhif Cofrestru Cwmni 5368409.

Os ydych chi’n gyrru, mae Parcio a Cherdded yn gallu helpu'ch plentyn i ennill ei fathodynnau WOW. Parciwch o leiaf ddeg munud i ffwrdd o'r ysgol a cherddwch neu troellwch weddill y daith.

Os ydych chi'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, dewch oddi ar y bws/trên **o leiaf ddeg munud i ffwrdd** a cherddwch weddill y daith (wedi'i gofnodi fel 'arall' ar Draciwr Teithio WOW).

Os nad yw cerdded i'r ysgol yn opsiwn, rydym yn cydweithio ag ysgolion i roi dull pwrpasol ar waith ar gyfer WOW sy'n diwallu anghenion eu disgyblion. Mae hyn yn cynnwys disgyblion yn dod yn Llysgenhadon WOW, arwain gwasanaethau ysgol, creu hysbysfyrddau teithio llesol, a gweithgareddau eraill yn ystod y diwrnod ysgol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch hyblygrwydd WOW neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau am sut gallwn wella, byddem yn croesawu eich barn. E-bostiwch **walktoschool@livingstreets.org.uk**

Beth yw bathodyn WOW?

Mae 11 o fathodynnau i’w hennill rhwng mis Medi 2025 a mis Gorffennaf 2026.

Mae pob bathodyn wedi’i ddylunio gan ddisgybl fel rhan o’n Cystadleuaeth Dylunio Bathodyn WOW blynyddol. Gellir ennill bathodyn newydd bob mis os yw disgyblion yn cerdded/troelli, beicio, sgwtera, ‘Parcio a Cherdded’ neu'n dod oddi ar y trên/bws yn gynt o leiaf unwaith yr wythnos.

Mae WOW 2025/26 yn annog disgyblion i ***Gerdded â Llawenydd***, gyda bathodynnau'n portreadu popeth o neidio mewn pyllau dŵr i beintio.

Caiff y bathodynnau eu creu yng Nghernyw o ddeunydd a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi, gan gynnwys hen hambyrddau oergell, platiau plastig a thoriadau potiau iogwrt.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: **livingstreets.org.uk/recycling**

Y llynedd, profodd tua 2,100 o ysgolion a thros 540,000 o ddisgyblion ledled y DU fanteision cerdded i'r ysgol gyda WOW. A fyddwch chi'n ymuno â ni?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y rhaglen, cysylltwch â

……………………………………………………………………………., neu dewch o hyd i ragor o wybodaeth a fideos defnyddiol yn: **livingstreets.org.uk/wowlaunch**

**Gadewch i ni gyfnewid y teithiau hynny i'r ysgol yn y car am deithiau cerdded i'r ysgol.**

240 City Road, Llundain, EC1V 2PR
020 7377 4900 info@livingstreets.org.uk livingstreets.org.uk

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban). Cwmni Cyfyngedig trwy Warant (Cymru a Lloegr). Rhif Cofrestru Cwmni 5368409.